# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 15 Ionawr 2025

Amser y cyfarfod: 13.30

# 253(v3)

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

## 1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Ysgrifennydd Cabinet ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Ysgrifennydd Cabinet ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Cwestiynau Amserol

(0 munud)

Ni dderbyniwyd unrhyw gwestiynau amserol

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## 5 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai – Y sector rhentu preifat

(60 munud)

**NDM8784** John Griffiths (Dwyrain Casnewydd)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 'Y sector rhentu preifat', a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Hydref 2024.

Noder: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Ionawr 2025.

## 6 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig – Chwe mis cyntaf Llywodraeth newydd y DU

(60 munud)

**NDM8783** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi bod Llywodraeth Lafur y DU wedi bod mewn grym am chwe mis yn Ionawr 2025.

2. Yn gresynu bod Llywodraeth Lafur y DU wedi:

a) taro ffermwyr Cymru gyda threth etifeddiaeth newydd;

b) tynnu'r lwfans tanwydd gaeaf i ffwrdd o hanner miliwn o bensiynwyr yng Nghymru;

c) cynyddu costau yswiriant gwladol cyflogwyr yng Nghymru.

3. Yn gresynu ymhellach fod Llywodraeth Cymru wedi methu ag amddiffyn Cymru yn ystod y cyfnod hwn.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i wneud y canlynol:

a) gwneud sylwadau brys i Lywodraeth y DU i'w hannog i wrthdroi eu polisïau i gyflwyno treth etifeddiaeth, cael gwared ar y lwfans tanwydd gaeaf, a chynyddu costau yswiriant gwladol cyflogwyr;

b) cyflwyno lwfans tanwydd gaeaf Cymreig os yw'r toriad i'r lwfans tanwydd gaeaf yn parhau i fod ar waith.

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1** [Jane Hutt (Bro Morgannwg)]

Dileu popeth ar ôl pwynt 1 a rhoi yn ei le:

Yn nodi y bu'n rhaid i Lywodraeth y DU wneud penderfyniadau anodd er mwyn dechrau adfer twf yn ein heconomi, sicrhau bod cyllid cyhoeddus yn fwy sefydlog ac ail-fuddsoddi yn ein gwasanaethau cyhoeddus.

Yn croesawu'r cyllid ychwanegol i Gymru gan Lywodraeth y DU yng Nghyllideb yr Hydref Llywodraeth y DU.

Yn nodi'r ffaith bod y penderfyniadau a wnaed gan Lywodraeth Lafur y DU yn ei chwe mis cyntaf yn golygu bod Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru yn cynnwys gwerth £1.5 biliwn o gyllid refeniw ychwanegol a gwerth £3 biliwn o gyllid cyfalaf, gan alluogi Cymru i anelu at dwf.

Yn credu y dylai cyllideb Cymru ganolbwyntio i ddechrau ar gyfrifoldebau datganoledig.

## 7 Dadl Plaid Cymru - Amserau aros y GIG

(60 munud)

**NDM8785** Heledd Fychan (Canol De Cymru)

Yn cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi uchelgais y Prif Weinidog i leihau'r amseroedd aros hiraf a chyflymu mynediad at driniaeth GIG.

2. Yn gresynu:

a) bod rhestrau aros y GIG wedi cyrraedd y lefelau uchaf erioed ym mhob mis o gyfnod y Prif Weinidog hyd yma;  a

b) methiant Llywodraeth Cymru i gyflawni'r targedau a osodwyd gan y Cynllun Adfer Gofal wedi'i Gynllunio ym mis Ebrill 2022 i ddileu amseroedd aros hir yn gyfan gwbl a chyflymu profion diagnostig ac ymyriadau therapi.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) sefydlu Gwasanaeth Brysbennu Gofal Dewisol i symleiddio'r broses atgyfeirio rhwng gofal sylfaenol ac eilaidd;

b) cyflwyno hybiau rhanbarthol arbenigol ar gyfer gofal dewisol ledled Cymru; ac

c) cyflwyno deddfwriaeth i roi Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ar sylfaen statudol gyda chylch gwaith clir i hwyluso cydweithio ar draws byrddau iechyd.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Dileu popeth ar ôl pwynt 1 a rhoi yn ei le:

Yn nodi bod arosiadau o fwy na 104 wythnos wedi gostwng ddau draean ers iddynt fod ar eu hanterth yn ystod y pandemig.

Yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi £50 miliwn yn ychwanegol yng nghynlluniau'r byrddau iechyd i leihau'r amseroedd aros hiraf ymhellach yn 2024-25.

Yn cydnabod camau gweithredu Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â rhestrau aros drwy ddatblygu:

a) y ganolfan llawfeddygaeth orthopedig ranbarthol yn Ysbyty Castell-nedd Port Talbot;

b) Ysbyty Llandudno yn ganolfan lawfeddygol orthopedig ar gyfer y Gogledd; ac

c) y ganolfan ddiagnostig a llawfeddygol yn Llantrisant.

**Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliant 2 ei ddad-ddethol.**

**Gwelliant 2** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Dileu pwynt 3 a rhoi yn ei le:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) ehangu nifer y canolfannau llawfeddygol a chanolfannau diagnostig;

b) cynyddu nifer y gwelyau sydd ar gael yn GIG Cymru;

c) cyflwyno cynllun recriwtio a chadw sylweddol ar gyfer y gweithlu;

d) sicrhau bod y swm canlyniadol Barnett llawn sy'n deillio o wariant Llywodraeth y DU ar y GIG ar gael ar gyfer GIG Cymru; a

e) rhoi'r cymorth ariannol sydd ei angen ar Fwrdd Iechyd Addysgu Powys er mwyn osgoi eu cynnydd arfaethedig mewn amseroedd aros am driniaethau trawsffiniol.

## 8 Cyfnod Pleidleisio

## 9 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM8786** Alun Davies (Blaenau Gwent)

Ffordd Blaenau'r Cymoedd - Buddsoddi yn ein heconomi yn y dyfodol.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 21 Ionawr 2025